

POLISI Llawysgrifen

2023 - 2024



Polisi Llawysgrifen



Ysgol Gynradd Groes-wen Primary School

Gyda'n gilydd yn gryfach

Gyda'n gilydd yn gryfach, bydd ysgol ddwyieithog Groes-wen yn sefydlu cymuned ysbrydoledig, cynnes a chroesawgar sydd yn dathlu Cymreictod gan ddatblygu amgylchedd cynhwysol a chynaliadwy.

Bydd ein plant yn datblygu fel unigolion creadigol, hyderus, egwyddorol, uchelgeisiol ac ieithyddion mentrus!

Polisi wedi ei gymeradwyo:

Pennaeth:	Cadeirydd y Llywodraethwyr:
<i>Ruth Irls</i>	<i>D. R. Tiplady</i>
Dyddiad: 15.06.2023	Dyddiad: 15.06.2023

Polisi wedi ei adolygu:

Dyddiad:	Adolygydd:	Manylion:



Polisi Llawysgrifen Ysgol Gynradd Groes-wen Primary School

Amcanion

Yma yn Ysgol Gynradd Groes-wen Primary School defnyddiwn ddull llawysgrifen syml i sicrhau llwyddiant bob disgybl. Disgwylir i'r plant gynhyrchu llawysgrifen sy'n ddarllenadwy a chliir, ac fe'u hanogir i gyflwyno eu gwaith yn daclus gan ymarfer eu sgiliau ysgrifennu yn rheolaidd trwy gydol eu hamser yn yr ysgol. Ein bwriad yw addysgu ffurfiant llythrennau cynredol cywir yng Ngham Gynnydd 1, ac i addysgu'r disgyblion i reoli ac i feistroli ffurfiant y llythrennau yng Ngham Gynnydd 2. Y gobaith yw y bydd hyn yn arwain at gyflwyno llawysgrifen redol ar ddiwedd Blwyddyn 2 a fydd yn arwain at fod yn rhugl ac effeithlon erbyn Cam Cynnydd 3 os dewisir y plant i'w ddefnyddio.

Nod

Ein nod yw gwneud llawysgrifen yn broses awtomatig nad yw'n ymyrryd a meddwl creadigol. Fel catalydd i lawysgrifen gyflym, rydym yn annog rhieni a gwarcheidwaid i ddefnyddio'r un camau adref, sef i:

- gael agwedd gadarnhaol tuag at lawysgrifen
- ddeall yr angen i ddatblygu arddull llawysgrifen dda
- ddal offer ysgrifennu'n gywir
- gyflawni llawysgrifen a'i gellir ei ddarllen yn hawdd
- fod yn ymwybodol bod angen cynnal cydbwysedd rhwng cyflymder a thaclusrwydd er mwyn cyflawni arddull ysgrifen briodol ar gyfer cyflawni tasg

Dull

Anogir ein staff i ddefnyddio llawysgrifen gyson o fewn y Camau Cynnydd wrth osod tasgau, marcio, gosod sylwadau, modelu ac arddangos gwaith ayyb:

- Disgwylir staff yng Nghamau Cynnydd 1 a mwyafrif o Gam Cynnydd 2 i ddefnyddio ysgrifen cynredol ddestlus.

M m	A a	P p	H h	T t	E e	C c	R r	Y y
Th th	N n	B b	G g	W w	L l	O o	S s	
Ch ch	D d	I i	Ll ll	U u				
J j	F f	Dd dd	Ff ff	Rh rh				

- Disgwylir staff o Flwyddyn 3 at Flwyddyn 6 i ddefnyddio ysgrifen redol.

Dylai disgyblion fod yn gydlynus a dangos parhad mewn dysgu ac addysgu llawysgrifen ar draws y Camau Cynnydd a chael eu hannog i ymfalchïo yng nghyflwyniad eu gwaith.

Amllder Llawysgrifen

Mae llawysgrifen yn dasg drawsgwricwlaidd ac fe'i cymerir i ystyriaeth yn ystod pob gwers. Cynhelir dysgu llawysgrifen yn ffurfiol, yn rheolaidd ac yn systematig o fewn ein sesiynau ffoneg yn CC1 a 2 ac yna yn ystod cylch darllen yn CC3 er mwyn sicrhau y caiff targedau Camau Cynnydd eu cwrdd.

Cam Cynnydd 1

Meithrin:

Bydd y disgyblion yn

- cyflawni ymarferiadau i ddatblygu sgiliau echddygol manwl gan ddefnyddio amrywiaeth o offer e.e. sisyrnau, clai, tywod, gleiniau, pegiau ayyb.
- defnyddio sialc, pasteli, brwsys paent, pensiliau amrywiol ac ati i wneud siapiau a marciau ar hap ar bapur, byrddau gwyn, byrddau du, byrddau tywod, iPads ayyb gan ddefnyddio'r llaw sydd orau ganddynt.
- cael eu cyflwyno sut i ddal offer ysgrifennu'n briodol gan ddefnyddio'r law dde neu'r chwith.
- cael cyfleoedd i ddisgyblion adnabod ac ymarfer ffurfio eu henwau.
- cael eu cyflwyno i lythrennau'r wyddor yn nhrefn ein cynlluniau ffoneg.

Derbyn:

Bydd y disgyblion yn:

- datblygu rheolaeth echddygol manwl ymhellach trwy amrywiaeth o weithgareddau megis: gweithgareddau gwnïo a gwehyddu; torri a philio wrth ymgymryd â gweithgareddau coginio; defnyddio rhigymau bysedd; edafu mwclen; chwarae strwythurol gyda dŵr a thywod; defnyddio paent ayyb.
- datblygu rheolaeth echddygol fras ymhellach gan ddefnyddio amrywiaeth o weithgareddau gan gynnwys: siarad am y symudiadau mae'r plant yn wneud; annog ysgrifennu a gwneud patrymau yn yr awyr; hambwrdd tywod; ewyn shafio; reis; blawd; paent; sglein ayyb.
- cysylltu siâp llythrennau a sain llythrennau trwy annog y plant i ddysgu ac i wrando ar, ac i wahaniaethu rhwng synau yn eu hamgylchedd, yng ngherddoriaeth ac yn rhigymau. Addysgu'r siapiau llythrennau ochr yn ochr â gweithgareddau cinesthetig. Mae'r dulliau a defnyddir yn cynnwys: ysgrifennu yn yr awyr; ysgrifennu â phaent; defnyddio byrddau gwyn ayyb.
- cael eu cyflwyno i ffurfiant holl lythrennau'r wyddor yn ystod y flwyddyn gan ddilyn cynllun ffonig yr Ysgol.

Wrth arsylwi ar y disgyblion bydd angen nodi unrhyw ardaloedd ar gyfer gwelliant o ran eu sgiliau llawdrin manwl ac ymarfer y rhain ymhellach gydag unigolion.

Cam Cynnydd 2

Blwyddyn 1:

Bydd y disgyblion yn datblygu ffurfiant llythrennau o'r Meithrin a'r Dosbarth Derbyn. Cysylltir hwn gyda gwaith ffonig yr wythnos.

- Disgwylir i ddisgyblion i ysgrifennu ar linell gan gofio pa lythrennau sydd yn 'ddiog'.
- Disgwylir i'r disgyblion fedru cynhyrchu llawysgrifen ddarllenadwy sy'n gyson o ran maint.

Blwyddyn 2-3:

- Yn ystod tymor olaf blwyddyn 2, cyflwynir y disgyblion i uno llythrennau.

- Dangosir y dull cywir o uno ac addysgir o dan oruchwyliaeth er mwyn rhwystro'r datblygiad arfer drwg.
- Ym mlwyddyn 3, datblygir ffurfiant llythrennau redol o flwyddyn 2.
- Ni fydd y plant yn uno o brif lythyren.

Cam Cynnydd 3

Blwyddyn 4 i 6:

- Addysgir llawysgrifen redol trwy bob pwnc a modelir arfer da llawysgrifen gan yr athro/athrawes trwy gydol yr amser.
- Dyrennir amser adeg sesiynau cylch darllen er mwyn mireinio llawysgrifen er mwyn ffurfio ac uno'n gywir.
- Mae rhaid i'r athro / athrawes modelu arfer dda i'r disgyblion gopïo.
- Datblygir llawysgrifen redol gyflym, rhugl a darllenadwy a defnyddir beiros du, lle bo'n briodol, a phan gytunwyd gyda'r disgybl.

OS NI FYDD DISGYBL WEDI MEISTROLI'R SGIL O YSGRIFENNU LLYTHRENNAU YN UNIGOL AR FFURF

CYNREDOL NI FYDD DISGWYL IDDYNT YMARFER LLAWYSGRIFEN REDOL.

Ymddaliad


Ystum:

Wrth ddatblygu sgiliau ysgrifennu, mae'n holl bwysig ystyried safle corfforol. Mae'r disgyblion yn eistedd gyda'u cefnau yn syth neu'n gwyro ychydig ymlaen gyda'u traed yn gadarn ar y llawr. Ni ddylai top y ddesg fod yn fwy na dwy fodfedd uwchben y penelin pan fo'r fraich yn rhydd wrth ochr y disgybl. Os na, fe ellir addasu'r ddesg, defnyddiwch obennydd a blwch neu stôl fel nad yw'r traed yn hongian. Dylai'r ddau benelin fod ar y bwrdd – gelwir hyn yr ystum "gwrando a dysgu".



Safle'r Papur:


Mae'n rhaid i'r papur fod ar oleddf 45 gradd fel ei fod yn gyfochrog â'r fraich ysgrifennu. Gall y fraich wedyn symud yn rhydd o'r benelin wrth i'r ysgrifennu symud ar draws y dudalen. Caiff y llaw nad yw'n ysgrifennu ei chadw ar dop y dudalen i anogi'r papur a'i symud i fyny – fel y rholer mewn teipiadur. Mae safle cywir yn neilltoli o bwysig i osgoi'r bachyn llaw chwith.



Safle'r papur ar gyfer plant llaw dde

Gafael yn y pensil/beiro:


Gafaelir yn y pensil/beiro rhwng y bawd a'r mynegfys, gyda'r bys canol yn ffurfio silff oddi tani. Dylai pen y pensil/beiro bwyntio at yr ysgwydd. Mae'r holl fysedd wedi plygu ychydig. Gelwir hyn y "gafael trybedd" a dyma'r mwyaf effeithiol.




Plant llaw chwith:

Gall plentyn llaw chwith ei chael hi'n anodd i ddilyn athrawon llaw dde wrth iddynt ddangos sut i ffurfio llythrennau (ac fel arall).

- Dylai athrawon ddangos sut i wneud hynny i blentyn llaw chwith yn unigol neu mewn grŵp.
- Dylai disgyblion llaw chwith eistedd i'r chwith o blentyn llaw dde fel nad ydynt yn cystadlu am le.
- Dylai disgyblion osod y papur/llyfr ar eu hochr chwith ac ar ogwydd, fel a ddangosir yn y diagram.
- Ni ddylid gafael mewn pensiliau yn rhy agos i'r pwynt gan y gall hynny amharu ar 'linell golwg' disgyblion.
- Efallai bydd angen cael ymarfer ychwanegol gydag ymarferiadau o'r chwith i'r dde cyn bod disgyblion yn ysgrifennu o'r dde i'r chwith yn awtomatig.



Safle'r papur ar gyfer plant llaw



Rheolaeth echddygol gwan:

Bydd angen cyfeirio unrhyw ddisgyblion gyda rheolaeth echddygol gwan i'r CADI er mwyn iddynt gael eu sgrinio ar gyfer anghenion tebyg i dyspracsia, dislecsia, hypermobility ayyb, ac os yn addas, bydd angen darpariaeth ar gyfer rhaglen rheolaeth echddygol gwan. Bydd angen sicrhau bod adnoddau tebyg i fyrddau ar osgo yn y dosbarth er mwyn i'r plant defnyddio ayyb. Ar gyfer y disgyblion yma, gall ddysgu dau arddull o lawysgrifen ychwanegu haen ychwanegol o anhawster ac achosi dryswch. Mae felly'n



llawer gwell os gall disgybl ifanc ddysgu defnyddio un system o lawysgrifen o'r cychwyn cyntaf, h.y. ddisgwylir i'r disgyblion yma ymarfer llawysgrifen redol ond mae cyfleoedd iddynt os ydynt yn dymuno.

Sgiliau teipio

Annogwn disgyblion i ddefnyddio TGCh i gyflawni ambell tasg. Byddwn yn cyflwyno'r llythrennau ar y bysellfwrdd a sicrhau bod y disgyblion yn cael cyfleoedd amrywiol i'w defnyddio wrth nodi llythrennau , geiriau a brawddegau ar sgrin. Bydd cyfleoedd hefyd i olrhain llythrennau a geiriau mewn print ar sgrin gan ddefnyddio app cynllun ffoneg Tric a Chlic.